



Materion Gwledig

Papur Testun Rhif 14 – Crynodeb

Cyflwyniad

Er fod gan Sir y Fflint ardaloedd o boblogaeth uchel a gweithgarwch economaidd, mae llawer o'r sir yn wledig. Mae gan yr ardal wledig nodweddion ac anghenion gwahanol i'r ardaloedd adeiledig ac mae angen dull gwahanol o gynllunio defnydd tir a datblygiad. Mae'n bwysig cael cymunedau gwledig cynaliadwy sy'n diwallu anghenion preswylwyr nawr ac yn y dyfodol yn ogystal â diogelu'r amgylchedd a chael economi amaethyddol gref.

Cyd-destun

Mae dylanwadau Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol pwysig yn effeithio ar ardaloedd gwledig ac mae angen i'r rheiny fod yn sail i ddatblygiad polisi'r CDLI ar gyfer yr ardal wledig. Gall y CDLI nodi lleoliadau cynaliadwy ar gyfer datblygiadau mewn ardaloedd gwledig, a gallant hefyd ddiogelu tirwedd sensitif ac amgylcheddau naturiol a hanesyddol.

Yn ogystal â thema gyffredinol datblygiad cynaliadwy, gweler isod rai o'r agweddau allweddol eraill sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd gwledig:

- Tai fforddiadwy
- Mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus
- Mynediad at wasanaethau hanfodol
- Cyfleoedd am swyddi
- Amaethyddiaeth
- Twristiaeth

Fodd bynnag, mae problemau penodol y dylid mynd i'r afael â nhw gan gynnwys:

- Poblogaeth sy'n heneiddio
- Ymfudo
- Tai sy'n fforddiadwy / ar gael
- Trafnidiaeth
- Newid economaidd a phwysau ar gyfleusterau lleol
- Pwysau ar amaethyddiaeth
- Diogelu'r amgylchedd
- Newid yn yr hinsawdd

Rôl y Cynllun

Mae sicrhau fod cymunedau gwledig yn gynaliadwy yn amcan allweddol i'r Cynllun ac mae'n golygu fod angen dull gwaith cytbwys sy'n integreiddio agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yr ardal wledig. Gan hynny bydd angen polisiâu a chynigion sy'n:

- Ceisio diogelu cyfleusterau a gwasanaethau gwledig
- Nodi aneddiadau gwledig a allai gymryd tai newydd yn gynaliadwy
- Sicrhau tai gwledig fforddiadwy
- Caniatáu datblygiad at ddibenion cyflogaeth gwledig bach
- Hyrwyddo arallgyfeirio amaethyddol a diogelu tir amaethyddol
- Diogelu cymeriad a thirwedd yr ardal wledig
- Diogelu bioamrywiaeth a hyrwyddo gwarchod natur
- Cynorthwyo â datblygiad yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
- Rheoli datblygiad yn gaeth yng nghefn gwlad

agored

- Mynnu datblygiadau sydd wedi'u dylunio'n dda
- Hyrwyddo dewisiadau trafndiaeth gynaliadwy
- Lliniaru'r rhesymau y tu ôl i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu iddynt
- Darparu ynni adnewyddadwy

Ni all y CDLI fynd i'r afael â phob problem yn ymwneud â'r uchod ac mae rhai materion yn gorgyffwrdd â thestunau eraill.

Cynlluniau a Strategaethau Allweddol

- Polisi Datblygu Gwledig yr UE 2007-2013
- Trosolwg o Ddiwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin 2014-2020
- Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd i Gymru (2010)
- Cynllun Datblygu Gwledig 2014-2020: Camau Nesaf
- Twristiaeth Gynaliadwy – Fframwaith i Gymru (2007)
- Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned – Cynllun Datblygu Cynaliadwy i Gymru (2009)
- Ynni Cymru: Newid i Garbon Isel (2012)
- Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 5, 2012
- TAN2 Cynllunio a Thai Fforddiadwy (2006)
- TAN6 Cynllunio ar gyfer Cymunedau Gwledig Cynaliadwy (2010)
- TAN8 Ynni Adnewyddadwy (2005)
- TAN12 Dylunio (2012)
- TAN13 Twristiaeth (1997)
- TAN20 Cynllunio a'r Iaith Gymraeg (2013)
- TAN23 Datblygu Economaidd (2014)
- Cynllun Rheoli AHNE Bryniau Clwyd 2009-2014
- Strategaeth Gymunedol Cyngor Sir y Fflint 2009-2019

Materion yr eir i'r afael â nhw yn y Cynllun

- Dibyniaeth ar drafndiaeth ffyrdd a chost hynny
- Diffyg trafndiaeth gyhoeddus
- Mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau

cymunedol

- Datblygu a diogelu cyfleusterau lleol
- Darparu tai fforddiadwy
- Gwella cyfleoedd am ddatblygiadau cyflogaeth gwledig bach
- Sicrhau fod pob datblygiad yn parchu amgylchedd adeiledig a chymeriad hanesyddol yr ardal wledig
- Annog cynlluniau ynni adnewyddadwy priodol
- Diogelu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
- Arallgyfeirio gwledig a diogelu'r diwydiant amaethyddol

Polisiâu / Cynigion Defnydd Tir Posibl

Roedd y CDU yn cynnwys pennod ar Fenter Wledig ac Amaethyddiaeth gyda 5 polisi. Roedd polisiâu eraill sy'n berthnasol i faterion gwledig i'w gweld mewn penodau eraill.

Cynigir fod y polisiâu a'r cynigion allweddol yn y CDLI yn ymwneud yn fras â:

- Diogelu cefn gwlad agored a thir amaethyddol
- Diogelu bioamrywiaeth a chynefinoedd
- Darparu cyfleoedd ar gyfer tai fforddiadwy a chyflogaeth gwledig bach mewn aneddiadau cynaliadwy
- Dibynnu llai ar geir preifat
- Cymorth i fusnesau gwledig sy'n ymestyn ac arallgyfeirio amaethyddol
- Diogelu a datblygu gwasanaethau gwledig
- Sicrhau nad yw datblygiad yn cael effaith andwyol ar yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig
- Caniatáu cyfleusterau, atyniadau a llety priodol i dwristiaeth
- Diogelu'r tirwedd hanesyddol a diwylliannol